

**Arolygiad o Bractis  
Deintyddol Cyffredinol  
(Lle rhoddwyd rhybudd)  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
Gofal Deintyddol Oasis Y  
Fflint**

02 Ebrill 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	15
6.	Y Camau Nesaf.....	17
	Atodiad A .....	18

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ofal Deintyddol Oasis Y Fflint yn Uned 3, Parc Busnes Mesen, Y Fflint CH6 5YN, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 2 Ebrill 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal<sup>1</sup>

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisiau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC.

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol, er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol, drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Gofal Deintyddol Oasis Y Fflint yn rhan o rwydwaith Gofal Deintyddol Oasis, sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat, gwasanaethau deintyddol y GIG, a gwasanaethau deintyddol arbenigol i dros 3 miliwn o gleifion, yn 300 o bractisau deintyddol, ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.<sup>2</sup>

Mae Gofal Deintyddol Oasis Y Fflint yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac mae'n gwasanaethu sir Y Fflint. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd, dwy nyrs ddeintyddol wedi'u cymhwyso, tair nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, derbynnydd a rheolwr y practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau iechyd y geg
- Llenwadau
- Tynnu dannedd
- Pontydd, coronau a thriniaethau sianel y gwreiddyn
- Sythu dannedd a'u gwynnu.

Mae Gofal Deintyddol Oasis Y Fflint yn bractis cymysg, sy'n darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yn bennaf, ond hefyd rhai gwasanaethau sy'n perthyn i drefniadau gofal deintyddol preifat. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat, yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

---

<sup>2</sup> Cafwyd gwybodaeth ym mis Mawrth 2015 drwy <http://www.oasisdentalcare.co.uk/about-us/>

## 4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Gofal Deintyddol Oasis Y Fflint yn bodloni'r safonau gofal yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

### **Profiad y claf**

Ar y cyfan, gwelsom fod y cleifion yn fodlon ar y gwasanaethau maent wedi'u derbyn gan y practis. Roedd gwybodaeth allweddol i'r cleifion yn cael ei harddangos ym man aros y practis. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu y dylid adolygu a gwella'r wybodaeth ar wefan y practis.

Gwelsom fod gan y practis systemau a chyfleusterau clinigol effeithiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau deintyddol yn ddiogel.

### **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal**

Roedd yr ystafelloedd triniaeth a'r man dadheintio wedi cael eu llunio'n feddylgar, ac roedd prosesau dadheintio cadarn ar waith, fel y dangoswyd inni yn ystod yr arolygiad. Roedd gweithdrefnau a hyfforddiant ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffeg (pelydr-X).

Roedd cyfarpar a meddyginiaeth ychwanegol ar gael pe bai argyfwng. Gwelsom fod yr holl feddyginiaeth frys yn gyfredol. Cymerwyd camau unioni ar unwaith gan y staff, pan nodwyd gennym fod dyddiad ar rai o'r cynhyrchion a'r deunyddiau brys wedi dod i ben.

Roedd ansawdd cadw cofnodion yn dda ar y cyfan, ac o ran un o'r deintyddion, roedd hyn yn ardderchog. Pan fydd yn berthnasol, dylai'r holl ddeintyddion drafod hanes ysmegu a rhoi'r gorau i ysmegu â chleifion unigol, a chofnodi'r trafodaethau hyn yng nghofnod y claf.

Ar y cyfan felly, oherwydd bod gan y practis systemau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, roedd y peryglon ynghylch iechyd a diogelwch y cleifion a'r aelodau o'r staff wedi'u lleihau.

### **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Gwelsom dystiolaeth o bractis deintyddol wedi'i drefnu ac wedi'i reoli'n dda. Roedd strwythurau rheoli clir ar waith, yn y sefydliad ac yn y practis.

Roedd tystiolaeth bod y staff yn cael eu cefnogi'n dda, bod staff newydd yn derbyn rhaglen gynefino strwythuredig, a bod pob aelod o staff y practis yn cyfrannu'n weithgar at gyfarfodydd tîm misol. Gwelsom dystiolaeth ddogfenol a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau cyflogi cyfnodol wedi cael eu cynnal ar y staff, a'u bod yn ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd, yn ôl eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau unigol.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar gael. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i adolygu ac addasu polisiâu a gweithdrefnau sylfaenol Oasis er addaswydd ym Mhractis Deintyddol Oasis Y Fflint, gan ystyried deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol yng Nghymru.

Roedd aelodau o'r staff yn agored i'n canfyddiadau, a lle y nodwyd gwelliannau, roeddent yn rhagweithiol i sicrhau neu wneud ymrwymiad i weithredu'r rhain yn y practis. Gwelsom dystiolaeth o arferion da o dan bob un o bedair thema'r arolygiad hwn ac, o ganlyniad, dim ond ambell i welliant sydd wedi cael eu cynghori ar yr achlysur hwn.

### **Ansawdd yr Amgylchedd**

Gwelsom fod y practis mewn lle cyfleus, sef mewn unedau swyddfa wedi'u hadeiladu i'r pwrpas ym Mharc Busnes Mesen, ger canol tref Y Fflint. Ar y cyfan, gwelsom fod cyfleusterau da ar gyfer y cleifion. Er enghraifft, roedd digon o lefydd i barcio'n uniongyrchol y tu allan i'r practis ac o'i gwmpas. Roedd y practis ar lawr daear un o'r unedau swyddfa, ac roedd yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Roedd yr ystafell aros a'r coridor a oedd yn arwain at yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn eang. Fodd bynnag, mewn rhai mannau, roedd y gwaith paent a'r carpedi'n glytiog neu wedi'u staenio; felly, gwnaethom atgoffa'r practis i sicrhau bod yr amgylchedd cyfan yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a'i fod yn cael ei addurno, a/neu ei adnewyddu fel bo'n angenrheidiol.



## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y claf*

**Ar y cyfan, gwelsom fod y cleifion yn fodlon ar y gwasanaethau maent wedi'u derbyn gan y practis. Roedd gwybodaeth allweddol i'r cleifion yn cael ei harddangos ym man aros y practis. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu bod y dylid adolygu a gwella'r wybodaeth ar wefan y practis.**

Wythnos cyn yr arolygiad, gwnaeth AGIC roi ein holiadur safonol i'r practis, a oedd yn gofyn i gleifion am eu bodlonrwydd cyffredinol ar y gwasanaethau. Gwnaethom dderbyn a dadansoddi ymatebion 13 o holiaduron a gwblhawyd fore'r arolygiad. Gwnaethom siarad hefyd â thri chlaf yn ystod ein hymweliad.

Gwnaeth yr holl gleifion uchod nodi eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a gawsant yn y practis, a gwnaethant ddweud bod y tîm fel arfer yn rhoi croeso iddynt. Rhoddodd ambell un o'r cleifion sylwadau canmoliaethus, ac rydym wedi cynnwys sampl o'r rhain isod:

*"Barod iawn eu cymorth a byddant yn trefnu apwyntiad i ffitio i mewn gyda'r ysgol ac ati, a byddant wastad yn gwneud eu gorau glas mewn argyfwng. Hapus gyda'r practis hwn, a bydda' i'n cynghori pobl eraill i ymuno ag e."*

*"Mae gwasanaeth ardderchog yn cael ei ddarparu."*

*"Dyma'r ddeintyddfa orau rydyn ni wedi ymweld â hi erioed. Mae'r staff i gyd yn hyfryd."*

*"Bob amser yn lân ac yn olau. Mae amgylchedd braf yno. Ymlaciedig iawn."*

Dywedodd rhai o'r cleifion eu bod wedi profi oediad wrth aros i gael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion ar ôl hyn nad yw'r oediadau'n digwydd yn aml, neu mae'n digwydd ond dros gyfnodau byr.

Nid oedd yr holl gleifion yn gwybod sut i ddefnyddio'r gwasanaethau y tu allan i oriau, neu sut i wneud cwyn. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, gosododd rheolwr y practis hysbysiad arall yn yr ystafell aros, gan nodi manylion cyswllt y tu allan i oriau. Gwelsom hefyd hysbysiad ynghylch gweithdrefn gwyno'r practis.

Ar adeg ein harolygiad, roedd taflenni gwybodaeth y practis yn cael eu diweddarau gan y sefydliad. Cyn yr arolygiad, gwnaethom edrych ar wefan y

practis a chanfod nad yw rhywfaint o'r wybodaeth yn berthnasol ar gyfer practisau a reoleiddir yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r practis yn cyfeirio at y Comisiwn Ansawdd Gofal, sydd un o'r rheolyddion yn Lloegr, tra mai'r rheolydd cyfatebol yng Nghymru yw'r Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Roedd y wybodaeth ar y wefan ar gyfer Gofal Deintyddol Oasis Y Fflint yn gyfyngedig iawn ac, er enghraifft, nad oedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth am y deintyddion, na chyfeiriad e-bost y practis, na'r weithdrefn gwyno berthnasol ar gyfer y practis hwnnw.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gwnaethom gyngori rheolwr y practis i ymgynghori â'r rheolwyr perthnasol yn Iechyd Gofal Oasis Cyf, i adolygu a diweddarau ei wybodaeth ysgrifenedig. Mae hyn er mwyn sicrhau ei bod yn gywir ar gyfer unrhyw un o'r gwasanaethau a reoleiddir yng Nghymru, a'i bod yn adlewyrchu'r gwasanaethau a ddarperir ym Mhractis Y Fflint. Dylid ystyried Egwyddorion Hysbysebu Moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.***

Roedd rhestr o'r ffioedd ar gyfer gwasanaethau deintyddol y GIG, a gwasanaethau deintyddol preifat, yn cael ei harddangos yn amlwg yn y man aros, y gwnaethom nodi hyn yn arfer da.

Rhoddwyd cyfleoedd i'r cleifion ddarparu adborth am eu profiad. Gwelsom gopi o arolwg safonol y sefydliad sy'n cael ei gyflwyno bob tri mis yn ôl pob tebyg. Roedd canlyniadau'r arolwg blaenorol, a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2015, yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd yn y man aros, a oedd yn dangos lefel uchel o fodlonrwydd ar y gwasanaeth.

## Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Gwelsom fod gan y practis systemau a chyfleusterau clinigol effeithiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau deintyddol yn ddiogel.

Roedd yr ystafelloedd triniaeth a'r man dadheintio wedi cael eu llunio'n feddylgar, ac roedd prosesau dadheintio cadarn ar waith, fel y dangoswyd inni yn ystod yr arolygiad. Roedd gweithdrefnau a hyfforddiant ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffeg (pelydr-X).

Roedd cyfarpar a meddyginiaeth ychwanegol ar gael pe bai argyfwng. Gwelsom fod yr holl feddyginiaeth frys yn gyfredol. Cymerwyd camau unioni ar unwaith gan y staff, pan nodwyd gennym fod dyddiad ar rai o'r cynhyrchion a'r deunyddiau brys wedi dod i ben.

Roedd ansawdd cadw cofnodion yn dda ar y cyfan, ac yn achos un o'r deintyddion, roedd hyn yn ardderchog. Pan fydd yn berthnasol, dylai'r holl ddeintyddion drafod hanes ysmegu a rhoi'r gorau i ysmegu â chleifion unigol, a chofnodi'r trafodaethau hyn yng nghofnod y claf.

Ar y cyfan felly, oherwydd bod gan y practis systemau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, roedd peryglon ynghylch iechyd a diogelwch y cleifion a'r aelodau o'r staff wedi'u lleihau.

### Cyfleusterau Clinigol

Roedd pum ystafell driniaeth yn y practis, a oedd yn fach ond yn cynnwys y cyfarpar a'r offer angenrheidiol ar gyfer triniaethau. Roedd pob man a welsom yn lân, ac roedd yr uniad rhwng y llawr a'r wal wedi'i selio, i helpu i atal baw a llwch rhag casglu.

Nid oedd llawer o arwynebau gwaith yn y pum ystafell driniaeth. Fodd bynnag, gwelsom fod y rhan fwyaf o'r offer wedi cael eu cadw y tu allan i'r ystafelloedd triniaeth, mewn cynwysyddion storio a gedwir yn ochr lân y man dadheintio, a oedd yn lleihau'r perygl o heintio. Roedd eitemau eraill i leihau heintio'n cynnwys caeadau allweddellau cyfrifiadur a dillad amddiffyn untro.

Roedd tair uned sy'n cael eu defnyddio gan ddeintyddion i galedu deunyddiau trwy ddefnyddio golau, ond, ar adeg ein harolygiad, roedd un wedi torri. Gwnaethom awgrymu eu bod yn ystyried mwy o unedau i'w rhoi ym mhob ystafell driniaeth.

Roedd gefeiliau 'mosgito' (offer ar gyfer cael gafael ar eitemau bach) yn cael eu defnyddio i waredu ar nodwyddau. Fodd bynnag, roedd y practis wrthi'n

cyflwyno teclyn wedi'i wella i leihau'r perygl o anaf a achosir gan gyfarpar miniog (a adnabyddir hefyd fel nodwydd), a gwnaethom gynghori bod y rhain yn cael eu defnyddio cyn gynted â phosibl.

### **Gweithdrefnau dadheintio**

Roedd man dadheintio ardderchog yn y practis (ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol), a oedd yn eang ac yn ymestyn ar hyd bob ystafell driniaeth, ac roedd drws cefn ym mhob ystafell driniaeth i fynd i mewn i'r ardal hon.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y deintyddion yn cwblhau'r broses o ddadheintio. Roedd systemau cadarn ar waith a oedd yn gwahanu manau brwnt a manau glân, ac a oedd yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo a sinciau pwrpasol ar gyfer glanhau a thynnu offer trwy'r dŵr. Roedd yr offer yn cael eu harolygu cyn iddynt gael eu glanhau â llaw. Roedd tri awtoclaf (Math N<sup>3</sup>) ar gyfer sterileiddio'r offer. Nid oedd unrhyw gynlluniau hyd yn hyn i gyflwyno diheintydd llaw, neu awtoclafau gwactod. Fodd bynnag, rydym yn fodlon ar y broses o lanhau a sterileiddio â llaw sydd ar waith ar hyn o bryd. Fe'n hysbyswyd bod cynlluniau'n cael eu hystyried i symud tuag at arferion gorau (yn unol â chanllawiau'r Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 "*Dadheintio mewn gofal sylfaenol a phractisau deintyddol a gwasanaethau deintyddol cymunedol*") er mwyn prynu diheintydd golchi.

Gwelsom fod archwiliadau rheoli heintiau a dadheintio'n cael eu cynnal bob chwe mis. Roedd y practis yn defnyddio dull archwilio'r Gymdeithas Atal a Rheoli Heintiau, a gwnaethom awgrymu y dylent ystyried dull archwilio Deoniaeth Cymru, yn unol â WHTM 01-05 uchod.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer casglu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd cynwysyddion gwastraff clinigol a biniau gwastraff clinigol unigol ar gyfer pob ystafell driniaeth ar gael, ac roeddent i ffwrdd o'r manau a ddefnyddir gan y cleifion.

### **Cyfarpar a dogfennaeth radiograffeg (pelydr-X)**

---

<sup>3</sup>Nodir y mathau o awtoclafau ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Roedd pob ystafell driniaeth yn cynnwys peiriant pelydr-X, a thrwy edrych ar y dogfennau a'r cyfleusterau a oedd ar gael, gwelsom eu bod yn cael eu defnyddio'n unol ag arferion gwaith diogel. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd wedi'i threfnu'n dda, ac roedd yn hawdd i ni ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol yn ystod yr arolygiad.

Rhoddwyd copiâu inni o dystysgrifau hyfforddiant, a oedd yn cadarnhau bod pob deintydd wedi derbyn hyfforddiant radiograffeg a hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (IRMER). Roedd pob deintydd wedi ymgymryd ag o leiaf pum awr o hyfforddiant o fewn y pum mlynedd ddiwethaf, fel yr argymhellir yng nghanllawiau datblygiad proffesiynol parhaus y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

### **Cyfarpar a meddyginiaeth frys**

Gwelsom fod gan y practis gyflenwad o feddyginiaeth a chyfarpar brys perthnasol ar waith. Fodd bynnag, roedd deunydd pacio dadebru llwybrau anadlu a'r holl nodwyddau a chwistrelli wedi mynd heibio'r dyddiad dod i ben. Gwnaeth rheolwr y practis a'r nyrs arwain gymryd camau gweithredu ar unwaith pan wnaethom dynnu sylw at hyn, trwy archebu cynhyrchion newydd. Tra ein bod yn y practis, roedd y nyrs ddeintyddol hefyd yn creu system gyfrifiadurol newydd i fonitro'r dyddiadau dod i ben ar gyfer yr eitemau hyn. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y cynhyrchion perthnasol newydd yn cael eu prynu, cyn i'r hen gynhyrchion fynd heibio'r dyddiad dod i ben yn y dyfodol. Gan fod y mater hwn wedi cael ei atgyweirio gan y practis ar unwaith, nid ydym wedi ei gynnwys fel 'yr hyn sydd angen ei wella' ar yr achlysur hwn.

### **Cofnodion cleifion**

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth o broses dda o gadw cofnodion ac, yn achos un o'r deintyddion, roedd yr ansawdd yn ardderchog. Nid oedd pedwar deintydd yn dogfennu p'un a yw cyngor am roi'r gorau i ysmegu wedi cael ei roi, a gwnaethom gynghori bod hyn yn cael ei gynnwys yn nodiadau clinigol y cleifion.

#### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Lle bo'n berthnasol, dylai pob deintydd drafod hanes ysmegu a rhoi'r gorau i ysmegu â chleifion unigol. Dylid nodi manylion y trafodaethau hyn yng nghofnodion clinigol y cleifion.***

Gwelsom fod un cofnod papur wedi cael ei ffeilio mewn cofnod anghywir. Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis at hyn, a drefnodd i'r cofnod hwn gael

ei ffeilio yng nghofnod y claf cywir. Gan fod safon gyffredinol y broses o gadw cofnodion yn dda, ni wnaethom unrhyw argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth o ran hyn ar yr achlysur hwn.

### ***Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Gwelsom dystiolaeth o bractis deintyddol sydd wedi'i drefnu ac wedi'i reoli'n dda. Roedd strwythurau rheoli clir ar waith, yn y sefydliad ac yn y practis.**

**Roedd tystiolaeth bod y staff yn cael eu cefnogi'n dda, bod staff newydd yn derbyn rhaglen gynefino strwythuredig, a bod pob aelod o staff y practis yn cyfrannu'n weithgar at gyfarfodydd tîm misol. Gwelsom dystiolaeth ddogfennol a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau cyflogi cyfnodol wedi cael eu cynnal ar y staff, a'u bod yn ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd, yn ôl eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau unigol.**

**Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar gael. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i adolygu ac addasu polisïau a gweithdrefnau sylfaenol Oasis er addasrwydd ym Mhractis Deintyddol Oasis Y Fflint, gan ystyried deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol yng Nghymru.**

**Roedd aelodau o'r staff yn agored i'n canfyddiadau, a lle y nodwyd gwelliannau, roeddent yn rhagweithiol i sicrhau neu wneud ymrwymiad i weithredu'r rhain yn y practis. Gwelsom dystiolaeth o arferion da o dan bob un o bedair thema'r arolygiad hwn ac, o ganlyniad, dim ond ambell i welliant sydd wedi cael eu cynghori ar yr achlysur hwn.**

Roedd rheolwr y practis yn goruchwylio'r broses o reoli'r practis o ddydd i ddydd, a oedd yn rhannu ei amser rhwng Practis Gofal Deintyddol Oasis Y Fflint a Phractis Gofal Deintyddol Oasis Wrecsam. Er bod rheolwr y practis wedi gweithio i Ofal Deintyddol Oasis ers tua dwy flynedd a hanner, roedd ond wedi dechrau gweithio fel rheolwr y practis ym mhractis Y Fflint dri mis cyn ein harolygiad.

At hynny, roedd gan y practis ddeintydd arwain a nyrs arwain er mwyn goruchwylio'r broses o reoli'r practis clinigol o ddydd i ddydd. Gwelsom eu bod yn frwdfrydig ac yn ymroddedig wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau fel gweithwyr arwain. Gwelsom fod un o'r nyrsys deintyddol a oedd wedi'i recriwtio fwyaf diweddar wedi derbyn cyfnod cynefino trylwyr, a chyfnod prawf, yr oedd y cofnodion ar gyfer y rhain wedi cael eu llofnodi ganddi a'r deintydd arwain.

Roedd Gofal Deintyddol Oasis wedi sefydlu tîm cydymffurfio clinigol mewnol yn ddiweddar. Roedd un aelod o'r tîm yn bresennol yn ystod yr arolygiad, ac fe'n hysbyswyd eu bod wrthi'n gweithio gyda phractisau unigol tuag at gyflawni cydymffurfedd â'r rheoliadau a'r canllawiau perthnasol.

Gwelsom fod rheolwr y practis yn wrthi'n trefnu polisiau a gweithdrefnau safonol Oasis, gan eu haddasu i gyd-fynd â phractis Y Fflint lle bo'n angenrheidiol. Roedd llawer ohonynt yn cynnwys taflen llofnodion y staff, a oedd wedi'i llofnodi a'i dyddio gan y staff dros y misoedd diwethaf. Gan fod y polisiau'n cael eu safoni dros y sefydliad, gwnaethom gynghori eu bod yn cael eu hadolygu a'u croes-gyfeirio ag unrhyw bolisi sy'n berthnasol i Gymru.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid adolygu ac addasu polisiau a gweithdrefnau fel bo'n angenrheidiol, i sicrhau addasrwydd ar gyfer Gofal Deintyddol Oasis Y Fflint, gan ystyried deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol yng Nghymru.***

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau staff a chofnodion hyfforddi. Gwelsom fod gwiriadau manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu casglu ar gyfer rheolwr y practis, a phob ymarferydd deintyddol. Roedd pob gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintyddion o fewn y tair blynedd ddiwethaf, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Wrth edrych ar y cofnodion hyfforddi, gwelsom amrywiol dystysgrifau hyfforddi yn ffeil pob aelod o staff, a oedd yn dyddio o ddechrau eu cyflogaeth yn y practis i'r dyddiad presennol. Roeddent yn cynnwys ystod eang o hyfforddiant gorfodol a phresenoldeb y deintyddion mewn gweithdai a chynadleddau, ac felly yn dangos ymrwymiad y staff i gynnal datblygiad proffesiynol parhaus.

Roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal, a gwelsom sampl o'r cofnodion, a oedd yn darparu digon o fanylion. Ar rai achlysuron, roedd polisiau perthnasol wedi cael eu hatodi fel atodiadau. Roedd hyn yn dangos ethos o amgylchedd dysgu ac ymrwymiad i gynnal neu wella safonau yn y practis.

Gwnaethom ystyried gweithdrefn gwyno'r practis a gweld bod polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar gael. Roedd cod ymddygiad cwynion yn cael ei arddangos yn y man aros, a gwnaethom nodi bod yr amserlenni i gydnabod ac

ymateb i gwynion yn cyd-fynd â threfniadau Gweithio i Wella <sup>4</sup>r GIG. Roedd taflenni'r GIG ar gael ar ddesg y dderbynfa. Fodd bynnag, roedd un o'r gweithdrefnau cwyno yn y swyddfa'n cyfeirio at Ombwdsmon Lloegr; cytunodd rheolwr y practis i newid hwn yn unol â manylion cyswllt Ombwdsmon Cymru, fel y datganwyd eisoes yn y weithdrefn arall.

Gwelsom gopi o'r cofnodion cwynion cyfrifiadurol. Fe'n hysbyswyd bod cwynion yn cael eu trafod â'r staff, er enghraifft mewn cyfarfodydd tîm, er nad yw'r trafodaethau hyn yn cael eu dogfennu o reidrwydd. Gwnaethom awgrymu bod y trafodaethau staff hyn yn cael eu dogfennu, oherwydd byddai hyn yn dangos ymhellach y gwersi sydd wedi cael eu dysgu, ac unrhyw gamau gweithredu a allai wedi codi.

---

<sup>4</sup>Mae Gweithio i Wella yn nodi'r trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion), ynglŷn â gofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru ac ymateb iddynt.



## ***Ansawdd yr Amgylchedd***

**Gwelsom fod y practis mewn lle cyfleus, sef mewn unedau swyddfa wedi'u hadeiladu i'r pwrpas ym Mharc Busnes Mesen, ger canol tref Y Fflint. Ar y cyfan, gwelsom fod cyfleusterau da ar gyfer y cleifion. Er enghraifft, roedd digon o lefydd i barcio yn uniongyrchol y tu allan i'r practis ac o'i gwmpas. Roedd y practis ar lawr daear un o'r unedau swyddfa, ac roedd yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.**

**Roedd yr ystafell aros a'r coridor a oedd yn arwain at yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn eang. Fodd bynnag, mewn rhai manau, roedd y gwaith paent a'r carpedi'n glytiog neu wedi'u staenio; felly, gwnaethom atgoffa'r practis i sicrhau bod yr amgylchedd cyfan wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a'i fod wedi'i addurno, a/neu wedi'i adnewyddu fel bo'n angenrheidiol.**

Agorwyd Gofal Deintyddol Oasis Y Fflint yn 2006. Roedd y practis llawr daear yn darparu amgylchedd golau ac eang ar gyfer y staff a'r cleifion. Roedd y drysau'n ddigon llydan i alluogi cadair olwyn i fynd trwyddynt. Gallai'r bobl sy'n defnyddio cadair olwyn hefyd fynd i mewn i'r practis trwy'r fynedfa gefn.

Fel y nodwyd yn flaenorol ar dudalen naw'r adroddiad hwn, roeddem o'r farn bod yr ystafelloedd triniaeth a'r man dadheintio wedi cael eu llunio'n feddylgar.

Roedd yr ystafell aros a'r coridor yn fawr ac yn eang, ac roedd digon o gadeiriau ar gyfer y cleifion yn yr ystafell aros. Gwnaethom nodi bod tŷ bach y cleifion yn cael ei gadw dan glo. Esboniodd rheolwr y practis fod y tŷ bach hwn ym mynedfa'r adeilad a bod achlysuron lle roedd ymwelwyr i'r swyddfeydd eraill wedi defnyddio'r tŷ bach ac wedi'i adael yn frwnt. Felly, mae'r tŷ bach yn cael ei gadw dan glo pan nad yw'n cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, gall y cleifion gael gafael ar allwedd y tŷ bach yn hawdd, ac fe'n hysbyswyd bod y bobl sy'n gyfarwydd â'r practis yn helpu eu hunain i'r allwedd, heb angen gofyn i'r derbynnnydd amdani.

Roedd cyfleusterau'r staff yn cynnwys ystafell staff/cegin, a dau dŷ bach – un a oedd mewn siâp 'L' ac a oedd yn ddigon mawr i'w ddefnyddio fel man newid.

Roedd pob man a welsom yn ystod yr arolygiad yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, roedd y gwaith paent mewn sawl man mewnol yn yr adeilad (gan gynnwys ystafelloedd triniaeth) wedi'i farcio, ac roedd darnau o'r carped yn y man aros wedi'u staenio .

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Atgoffir y practis i sicrhau bod yr amgylchedd cyfan yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a'i fod yn cael ei addurno, a/neu ei adnewyddu fel bo'n angenrheidiol.***

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Gofal Deintyddol Oasis Y Fflint. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd Gofal Deintyddol Oasis Y Fflint yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Gofal Deintyddol Oasis Y Fflint**

**Dyddiad yr arolygiad: 2 Ebrill 2015**

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<b>Profiad y claf</b>			
8	<p>Gwnaethom gynghori rheolwr y practis i ymgynghori â'r rheolwyr perthnasol yn lechyd Gofal Oasis Cyf, i adolygu a diweddarau ei wybodaeth ysgrifenedig. Mae hyn er mwyn sicrhau ei bod yn gywir ar gyfer unrhyw un o'r gwasanaethau a reoleiddir yng Nghymru, a'i bod yn adlewyrchu'r gwasanaethau a ddarperir ym Mhractis Y Fflint. Dylid ystyried Egwyddorion Hysbysebu Moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</p> <p>Safon lechyd a Gofal 3.2</p>	<p>Mae prif swyddfa lechyd a Gofal Oasis wrthi'n mynd i'r afael â'r sefyllfa hon, er mwyn i reoliadau Cymru gael eu diweddarau ar ein gwefannau ac yn ein taflenni, i adlewyrchu gwasanaethau a ddarperir ym Mhractis Y Fflint.</p>	<p>Rheolwr y practis i gymryd camau dilynol</p>	2 fis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Cyflenwi Safonau lechyd a Gofal</b>				
11	Lle bo'n berthnasol, dylai pob deintydd drafod hanes ysmegu a rhoi'r gorau i ysmegu â chleifion unigol. Dylid nodi manylion y trafodaethau hyn yng nghofnodion clinigol y cleifion.  Safonau lechyd a Gofal 1.1 a 3.5	Mae pob clinigydd wedi trafod hyn mewn cyfarfod clinigol ac maent wrthi'n archwilio'r cofnodion i sicrhau cydymffurfedd llwyr.	Rheolwr y practis a chlinigydd arwain	Ar unwaith
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
13	Dylid adolygu ac addasu polisïau a gweithdrefnau fel bo'n angenrheidiol, i sicrhau addasrwydd ar gyfer Gofal Deintyddol Oasis Y Fflint, gan ystyried deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol yng Nghymru.  Safon lechyd a Gofal 3.4	Newid polisïau a gweithdrefnau fel y sonnir ar dudalen 13.	Rheolwr y practis	Cwblhawyd
<b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>				
15	Atgoffir y practis i sicrhau bod yr	Dyfnbris ar gyfer gwaith addurno a charped	Rheolwr y practis	6 wythnos

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	amgylchedd cyfan yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a'i fod yn cael ei addurno, a/neu ei adnewyddu fel bo'n angenrheidiol. Safon Iechyd a Gofal 2.1	newydd Dechrau'r gwaith wedyn		

### Cynrychiolydd y practis:

**Enw (Llythrennau bras):**      **Suzanne Davies**

**Teitl:**                                      **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:**                                **14/05/2015**